CYNGOR CYMUNED PENMYNYDD

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FERCHER
4 Ebrill 2018, NEUADD PENMYNYDD 7.30yh

YN BRESENNOL : Cyng D I Roberts, N Jones, E Williams, S Hughes, G Owen (Clerc)	
YMDDIHEURIADAU: Cyng R Davies, A Evans, A Mummery, R Williams (Cyngor Sir), M Jones (Cyngor Sir)	
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng D I Roberts.
2	**DATGAN DIDDORDEB** – Dim
3	**DERBYN COFNODION** Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod 07.03.18. Fe'u derbyniwyd fel rhai cywir. Cyng N Jones yn cynnig a Cyng S Hughes yn eilio
4	**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
4.1	**Adolygu cyflog y Clerc** - Bydd y Clerc yn paratoi contract ac yn cynnig gwybodaeth ar ei waith gyda'r cynghorau eraill. Cytunwyd bydd yr aelodau yn ystyried y mater am 7yh yn y cyfarfod nesaf cyn i'r Clerc gyrraedd
5	**Gohebiaeth Cyngor Ynys Mon**
	Dim
6	**Gohebiaeth Ychwanegol**
6.1	Unllais Cymru - Cynigion ar gyfer Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2018 - dim
6.2	Unllais Cymru - Lwfansau i aelodau. Am bod incwm a trosiant y Cyngor o dan £30000, nid yw yn orfodol i cynnig lwfans i'r aelodau. Cytunwyd i dderbyn ni fydd y Cyngor yn cynnig lwfans.
6.3	Cyng Alaw Evans - Darllenwyd ebost gan Cyng Evans gan ddweud ei bod yn ymddiswyddo. Bydd y Clerc yn anfon llythyr o ddiolch am eu gwasanaeth ar y Cyngor
7	**MATERION ARIANNOL**
	Cytunwyd i dalu:
7.1	Mrs Brenda Williams £300.00 (gwaith paentio ac ymlaen yn y Ganolfan)
7.2	Sion Jones £160.00 (gosod a trin hysbysffwrdd)
7.3	Cais ariannol Urdd Gobaith Cymru (Rhanbarth Môn) - dim cyfraniad
7.4	Cais ariannol Elusen Ambiwlans Awyr Cymru - dim cyfraniad
7.5	Adolygiad ariannol chwarterol - Derbyniwyd adroddiadau y Clerc/Swyddog Cyllid sydd yn cadarhau bod digon o incwm a chronfeydd i gynnal chostau hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol
8	**MATERION ERAILL**
8.1	Cwyn - Cyngor Sir wedi niweidio'r ffens rhwng 5 a 11 Bryn Ffynon, Star (cwyn gan Mrs C Parry rhif 11). Bydd y Clerc yn dod a'r mater at sylw y Cyngor Sir
	Llofnod **Cadeirydd** **16.05.18**

9	**Eitemau ar gyfer yr agenda nesaf**
9.1	Trosglwyddo enw a cyfeiriad ar biliau y Ganolfan (dwr, trydan, nwy) i Pwyllgor y Ganolfan
9.2	Trefnu yswiriant ar y Ganolfan ac oes angen talu treth?
9.3	Cais grant am swings yn maes chwarae Star
	Llofnod **Cadeirydd** **16.05.18**